DEDDF DIGARTREFEDD A DYRANNU TAI CYMDEITHASOL (CYMRU) 2026

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 10 Chwefror 2026 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Ebrill 2026. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn ymwneud â'r Ddeddf fel y cafodd y Cydsyniad Brenhinol.1 Dylid eu darllen ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Ni fwriedir i'r Nodiadau Esboniadol fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar ddarpariaeth unigol yn y Ddeddf, nis rhoddir.

CEFNDIR CYFFREDINOL

3. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Tai 1996 ("Deddf 1996") wedi sefydlu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru dros y tri degawd diwethaf. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r ymateb i ddigartrefedd yng Nghymru wedi datblygu'n sylweddol. Mae'r Ddeddf yn diwygio gwasanaethau digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn.

STRWYTHUR Y DDEDDF

4. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 45 o adrannau (mewn tair Rhan) ac un Atodlen. Mae'r Rhan gyntaf yn ymwneud â digartrefedd, mae'r ail Ran yn ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol, ac mae'r drydedd Ran yn cynnwys darpariaethau amrywiol a chyffredinol. Mae'r Atodlen yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

---

[1] Gellir canfod newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r Ddeddf ers iddi gael y Cydsyniad Brenhinol drwy ddefnyddio'r cyfleuster "Newidiadau i Ddeddfwriaeth" yn www.legislation.gov.uk/cy/changes.

SYLWEBAETH AR ADRANNAU

RHAN 1 - DIGARTREFEDD

Adran 1: Ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd"

5. Mae'r adran hon yn diwygio adran 55(4) o Ddeddf 2014 er mwyn pennu tri amgylchiad pryd yr ystyrir bod person "o dan fygythiad o ddigartrefedd" at ddibenion Deddf 2014. Yn gyntaf, pan fo hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddyroddi i'r person, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo roi'r gorau i'w lety, yn ail, pan fo cais wedi ei wneud i'r llysoedd am orchymyn i adennill meddiant o lety'r person, neu'n drydydd, os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis.

6. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod is-adran newydd (5) yn adran 55 o Ddeddf 2014, sy'n darparu, er mwyn i berson gael ei ystyried yn berson sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd ar y sail bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei roi, fod rhaid i'r hysbysiad fod wedi ei roi gan rywun yr ymddengys ei fod â'r hawl i roi hysbysiad o'r fath, ni waeth a yw'r hysbysiad yn ddilys ac ni waeth beth fo rhinweddau unrhyw hawliad am feddiant y gallai fod gan y person a roddodd yr hysbysiad.

Adran 2: Cymorth i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref

7. Mae'r adran hon yn diddymu adran 65 o Ddeddf 2014, a oedd yn nodi'r hyn yr oedd yn ofynnol i awdurdod tai lleol ei wneud pan oedd yn ofynnol, gan Bennod 2, Rhan 2 o'r Ddeddf honno, iddo gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad oedd yn peidio â bod ar gael, i geisydd. Roedd yn ofynnol i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i gynorthwyo, a gallai ystyried yr angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod. Nid oedd yn ofynnol iddo ddarparu llety.

8. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 66 o Ddeddf 2014 (dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref) er mwyn darparu bod rhaid i awdurdod tai lleol, pan fo'n fodlon bod ceisydd mewn perygl o ddod yn ddigartref a'i fod yn gymwys i gael cymorth, gymryd camau rhesymol sy'n debygol o sicrhau bod llety addas yn parhau i fod ar gael i'r ceisydd. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'r awdurdod gynnig llety i'r ceisydd o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 na darparu llety fel arall i'r ceisydd.

Adran 3: Dyletswydd i asesu a hysbysiad am ganlyniad asesiad

9. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 62 a 63 o Ddeddf 2014.

10. Mae'r adran hon yn diwygio'r diffiniad o "ceisydd" yn adran 62 o Ddeddf 2014 at ddibenion adrannau 85, 86 ac 88 o'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud ag adolygiadau o benderfyniadau ac apelau i'r llys sirol) fel ei fod yn cynnwys person sydd wedi gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond bod yr awdurdod wedi penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos y person. Mae'r diwygiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr hawl i ofyn am adolygiad wedi ei hestyn i gynnwys hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad awdurdod tai lleol i beidio â chynnal asesiad o dan adran 62 o Ddeddf 2014 (gweler adran 5).

11. Os yw ceisydd yn gymwys i gael cymorth, rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys asesiad o'r materion a restrir yn adran 62(5) o Ddeddf 2014. Mae'r adran hon yn diwygio adran 62(5) o Ddeddf 2014 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol asesu dau beth ychwanegol. Yn gyntaf, y gefnogaeth y gall fod ei hangen ar geisydd (neu ar berson sy'n byw gydag ef) i oresgyn unrhyw rwystrau rhag byw'n annibynnol. Yn ail, y gefnogaeth y gall fod ei hangen ar geisydd i sicrhau bod cyfathrebu'r awdurdod â'r ceisydd (wrth arfer swyddogaethau digartrefedd yr awdurdod) yn hygyrch i'r ceisydd.

12. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio'r pethau y mae rhaid i'r awdurdod tai lleol eu gwneud o dan adran 62(6) o Ddeddf 2014 wrth gynnal asesiad o'r materion a restrir yn adran 62(5). Fel y'i diwygir gan yr adran hon, mae adran 62(6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol geisio safbwyntiau'r ceisydd (ac ystyried ei farn) ar y materion y mae rhaid i'r awdurdod eu hasesu o dan baragraffau (a) i (ca) o is-adran (5) o adran 62 o Ddeddf 2014, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol wneud ymholiadau ynghylch nodweddion ac amgylchiadau personol y ceisydd, yn ogystal â nodweddion ac amgylchiadau personol unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd, sy'n berthnasol i'r asesiad.

13. Mae adran 62(7) o Ddeddf 2014 wedi ei diwygio fel na chaiff awdurdod tai lleol asesu'r materion yn is-adran (6) mwyach cyn ei fod wedi penderfynu bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014.

14. Mae is-adrannau (9) i (11) o adran 62 wedi eu diddymu gan yr ymdrinnir â hawl ceisydd i ofyn am adolygiad o asesiad o dan adran 62, o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan y Ddeddf hon, gan adran 85 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir - gweler adran 5).

15. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 63 o Ddeddf 2014 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol hysbysu person pan fo'n penderfynu peidio ag asesu achos y person hwnnw o dan adran 62 o Ddeddf 2014. Rhaid i'r awdurdod tai lleol hefyd egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad.

16. Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau eraill i adran 63 o Ddeddf 2014, sy'n darparu bod rhaid i'r hysbysiad a ddarperir i'r ceisydd, pan fo asesiad wedi ei gynnal, gynnwys canlyniad yr asesiad ynghylch a yw ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 a'r asesiad o'r materion penodol sy'n ofynnol gan adran 62(5) o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon).

17. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 63(4) o Ddeddf 2014 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r person am ei hawl i ofyn am adolygiad pan fo'r awdurdod tai lleol yn penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos y person o dan adran 62 o Ddeddf 2014.

Adran 4: Cynlluniau atal, cefnogaeth a llety

18. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 63A a 63B yn Neddf 2014.

19. Pan fo awdurdod tai lleol yn ystyried bod arno ddyletswydd i geisydd o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014, mae adran 63A o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddogfennu ei asesiad o achos y person o dan adran 62 o Ddeddf 2014, a materion eraill, mewn cynllun ysgrifenedig o'r enw cynllun atal, cefnogaeth a llety ("cynllun"). Gall cynllun fod yn un ddogfen neu'n nifer o ddogfennau, a gellir ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

20. Pan fydd yn llunio'r cynllun, rhaid i'r awdurdod tai lleol roi sylw i'w asesiad o achos y person o dan adran 62 o Ddeddf 2014. Rhaid i'r cynllun gofnodi, ymysg pethau eraill, asesiad yr awdurdod o anghenion tai ac anghenion cefnogaeth y ceisydd, ac anghenion tai ac anghenion cefnogaeth unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd. Rhaid iddo hefyd gofnodi asesiad yr awdurdod tai lleol o'r gefnogaeth y mae ei hangen ar y ceisydd i wneud y cyfathrebu â'r ceisydd yn hygyrch. Rhaid i'r cynllun hefyd gynnwys safbwyntiau'r ceisydd ar y materion hynny.

21. Rhaid i'r awdurdod geisio canfod pa ganlyniad y mae'r ceisydd eisiau ei gyflawni a chofnodi hynny yn y cynllun. Pan fydd yn paratoi ac yn adolygu'r cynllun, rhaid i'r awdurdod roi sylw i a allai arfer unrhyw un neu rhagor o'I swyddogaethau ym Mhennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 gynorthwyo i gyflawni'r canlyniad hwnnw.

22. Rhaid i'r awdurdod tai lleol geisio cytuno â'r ceisydd ar y camau sydd i'w cymryd gan y ddau barti at ddiben sicrhau bod gan y ceisydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y ceisydd lety addas a'u bod yn gallu cadw'r llety hwnnw.

23. Os cytunir ar gamau o'r fath gan y ddau barti, yna rhaid i'r awdurdod tai lleol gofnodi'r camau yn ysgrifenedig. Os na all y partïon gytuno ar gamau o'r fath, rhaid i'r awdurdod tai lleol nodi yn ysgrifenedig pam na allent gytuno, pa gamau y mae'r awdurdod tai lleol yn meddwl y dylai'r ceisydd eu cymryd a pha gamau y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cymryd wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau (gan gynnwys ei swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol). Rhaid i'r awdurdod tai lleol hefyd gofnodi unrhyw gamau y mae awdurdodau cyhoeddus eraill wedi cytuno i'w cymryd mewn cysylltiad â'r ceisydd. Rhaid i'r awdurdod tai lleol gadw o dan adolygiad briodoldeb unrhyw gytundeb y deuir iddo neu, yn absenoldeb cytundeb, y camau y mae'n ystyried y dylai ef a'r ceisydd eu cymryd, cyhyd ag y bo'r awdurdod tai lleol yn ystyried bod arno (neu y gall fod arno) ddyletswydd i'r ceisydd o dan ddarpariaethau Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014.

24. Rhaid i'r awdurdod tai lleol roi copi o'r cynllun i'r ceisydd, gan gynnwys yr holl ddogfennau sy'n ffurfio rhan ohono, a rhaid iddo roi gwybod i'r ceisydd am ei hawl i ofyn am adolygiad o'r cynllun a'r amserlenni ar gyfer gwneud cais o'r fath (gweler adran 85 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon)).

25. Os yw'r awdurdod tai lleol yn ystyried nad yw'r cytundeb y daethpwyd iddo neu, yn absenoldeb cytundeb, y camau a nodwyd i'w cymryd, yn briodol mwyach, er enghraifft oherwydd bod amgylchiadau newydd wedi codi, rhaid i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig a cheisio cytuno eto ar gamau i'w cymryd ganddo ef a'r ceisydd.

26. Rhaid i unrhyw hysbysiad neu unrhyw gopïau o ddogfennau gael eu rhoi ar gael i'r ceisydd eu casglu os nad yw wedi eu cael yn uniongyrchol.

27. Pan fo'n ofynnol i awdurdod tai lleol gael cynllun yn ei le mewn cysylltiad â cheisydd o dan adran 63A o Ddeddf 2014, mae adran 63B o'r Ddeddf honno (a fewnosodir gan yr adran hon) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod adolygu ei asesiad o dan adran 62 o Ddeddf 2014 a'r cynllun cysylltiedig o dan dri amgylchiad. Yn gyntaf, os nad oes adolygiad wedi ei gynnal o fewn 8 wythnos; yn ail, os yw'r awdurdod tai lleol yn credu bod amgylchiadau'r ceisydd, neu amgylchiadau ei aelwyd, wedi newid mewn ffordd a all effeithio ar ei anghenion llety, ar y gefnogaeth y mae ei hangen arno i gadw llety neu ar ei hawlogaeth i gymorth o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014; neu'n drydydd, os yw dyletswydd o dan adran 66 neu 76A(2) o Ddeddf 2014 wedi dod i ben neu'n debygol o ddod i ben gan fod y ceisydd yn ddigartref.

Adran 5: Hawl i ofyn am adolygiad

28. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 84, 85, 86 ac 88 o Ddeddf 2014.

29. Mae adran 5(2) o'r Ddeddf yn mewnosod is-adran (1A) yn adran 84 o Ddeddf 2014. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol hysbysu ceisydd am ei hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety a gynigir iddo o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014, pa un a dderbyniodd y ceisydd y cynnig ai peidio.

30. Mae adran 5(3) o'r Ddeddf yn amnewid adran 85 o Ddeddf 2014, sy'n rhoi'r hawl i geiswyr i ofyn am adolygiad o faterion penodol o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014. Mae cyfeiriadau isod at adran 85 yn gyfeiriadau at yr adran 85 a fewnosodir gan yr adran hon.

31. Mae adran 85(1) o Ddeddf 2014 yn darparu bod gan geisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o'r materion a restrir yn adran 85(2), yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn is-adrannau (4) i (7) o adran 85.

32. Mae adran 85(2) o Ddeddf 2014 yn cynnwys rhestr o faterion y caniateir eu hadolygu.

33. Mae adran 85(3) o Ddeddf 2014 yn darparu, pan fo ceisydd yn gofyn am adolygiad o fater a restrir yn adran 85(2) o Ddeddf 2014, fod rhaid i'r awdurdod tai lleol gynnal adolygiad o unrhyw fater a restrir yn yr is-adran honno y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn berthnasol i achos y ceisydd. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys ni waeth a yw'r ceisydd wedi nodi'n benodol pa fater sydd i'w adolygu ond mae'n ddarostyngedig i is-adrannau (4) i (7) o adran 85 o Ddeddf 2014. Mae hyn yn golygu, pan fo seiliau wedi eu pennu, fod rhaid i'r awdurdod tai lleol, yn ogystal, adolygu unrhyw fater a restrir yn adran 85(2) o Ddeddf 2014 y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn berthnasol oni bai bod un o'r amgylchiadau yn adran 85(4) i (7) o Ddeddf 2014 yn gymwys.

34. Mae is-adrannau (4) i (7) o adran 85 o Ddeddf 2014 yn nodi'r amgylchiadau pryd nad yw'n ofynnol i awdurdod tai lleol gynnal adolygiad o dan yr adran hon. Mae crynodeb o'r amgylchiadau hyn yn dilyn.

35. Nid yw'n ofynnol i awdurdod tai lleol gynnal adolygiad o benderfyniad sydd eisoes wedi bod yn destun adolygiad blaenorol o dan adran 85 o Ddeddf 2014.

36. Nid yw'n ofynnol i awdurdod tai lleol adolygu cynllun atal, cefnogaeth a llety oni bai bod y cais am adolygiad yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod pan fo dyletswydd ar yr awdurdod i gynnal y cynllun.

37. Nid oes angen cynnal adolygiad o addasrwydd llety a gynigir i geisydd ond os yw'r cais yn cael ei wneud:
    a. cyn i'r cynnig gael ei dderbyn a thra bo'r cynnig yn parhau ar agor, a
    b. os yw'r cynnig wedi ei dderbyn:
        i. tra bo dyletswydd o dan adran 66 (dyletswydd i gynorthwyo i atal digartrefedd), adran 68 (dyletswydd interim i letya), neu adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety) o Ddeddf 2014 yn parhau i fod yn gymwys, neu
        ii. fewn chwe mis i'r dyddiad y daeth y llety ar gael i'w feddiannu gyntaf.

38. Yn olaf, nid yw'n ofynnol i awdurdod tai lleol adolygu unrhyw fater arall oni bai bod y ceisydd yn gwneud y cais am adolygiad o fewn 21 o ddiwrnodau i gael ei hysbysu am asesiad neu benderfyniad yr awdurdod. Fodd bynnag, caiff yr awdurdod tai lleol ganiatáu cyfnod hwy ond rhaid rhoi cytundeb i'r cyfnod hwy hwn yn ysgrifenedig.

39. Mae adran 5(4) yn diwygio adran 86 o Ddeddf 2014, sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer adolygiad o dan adran 85 o Ddeddf 2014. Mae adran 86 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn honno. Mae adran 5(4) yn diwygio adran 86(2) a (4) er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y rhestr hwy o faterion y caniateir eu hadolygu o dan adran 85, fel y'i diwygir, yn cynnwys asesiadau a chynlluniau, yn ogystal â phenderfyniadau.

40. Mae adran 5(5) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 2014, sy'n galluogi ceiswyr sydd wedi gofyn am adolygiad o dan adran 85 o Ddeddf 2014 i apelio i lys sirol o dan amgylchiadau penodol. Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 5(5) yn adlewyrchu'r rhestr hwy o faterion y caniateir eu hadolygu o dan adran 85.

Adran 6: Dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer personau digartref cymwys sydd â chysylltiad lleol â Chymru

41. Mae'r adran hon yn dileu adrannau 73 a 74 o Ddeddf 2014 ac yn disodli adran 75 o'r Ddeddf honno. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 142 o Ddeddf 2014.

42. Mae adran 6(3) yn disodli adran 75 o Ddeddf 2014 yn ei chyfanrwydd. Mae'r cyfeiriadau at adran 75 yn y Nodiadau Esboniadol yn gyfeiriadau at adran 75 fel y'i mewnosodir gan y Ddeddf hon.

43. Mae adran 75(2) o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i sicrhau bod llety addas ar gael i geiswyr—
    a. sy'n ddigartref neu sydd â llety interim addas a ddarparwyd iddynt tra oeddent yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd,
    b. sy'n gymwys i gael cynhorthwy ac sydd â chysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru, ac
    c. nad ydynt yn bwrw dedfryd o garchar heb unrhyw debygolrwydd rhesymol y byddant yn cael eu rhyddhau o fewn 6 mis.

44. Mae adran 75(3) o Ddeddf 2014 yn diffinio llety interim at ddibenion adran 75(2) o Ddeddf 2014. Mae'n llety sydd wedi ei sicrhau o dan adran 68 o Ddeddf 2014, y mae'r ceisydd yn bwriadu ei feddiannu hyd nes y cwblheir proses y cais o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 neu am gyfnod o lai na 12 mis, neu'n llety y mae'r person sy'n darparu'r llety yn bwriadu iddo fod ar gael i'r ceisydd hyd nes y cwblheir y cais am gymorth, neu am gyfnod o lai na 12 mis.

45. Mae adran 75(4) a (7) o Ddeddf 2014 yn darparu eithriadau i'r ddyletswydd yn adran 75(1) o Ddeddf 2014. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys os nad oes gan y ceisydd (nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd) ddim cysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru.

46. Fodd bynnag, mae adran 75(5) a (6) o Ddeddf 2014 yn darparu y bydd y ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ac unrhyw gategori arall o berson a allai gael ei ragnodi mewn rheoliadau. Mae adran 6(4) yn diwygio adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf 2014 fel bod y rheoliadau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

47. O ran carcharorion sy'n bwrw dedfrydau o garchar, nid yw'r ddyletswydd yn adran 75(1) o Ddeddf 2014 yn gymwys os nad yw'n rhesymol debygol y byddant yn cael eu rhyddhau o fewn chwe mis (gweler adran 75(7) o Ddeddf 2014). Os yw'r ceisydd yn garcharor neu'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, mae'r ddyletswydd i sicrhau llety yn gymwys pan gaiff ei ryddhau neu pan nad yw'n ofynnol iddo aros yn y fangre a gymeradwywyd mwyach (gweler adran 75(8) a (9) o Ddeddf 2014).

48. Mae adran 6(2) o'r Ddeddf hon yn diddymu adran 73 o Ddeddf 2014, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gynorthwyo i sicrhau llety addas ar gyfer ceiswyr digartref a oedd yn gymwys i gael cynhorthwy. Mae adran 6(2) hefyd yn diddymu adran 74 o Ddeddf 2014, a oedd yn nodi pryd yr oedd y ddyletswydd honno'n dod i ben.

49. O ganlyniad i ddiddymu adrannau 73 a 74 o Ddeddf 2014 gan y Ddeddf hon, a'r diwygiadau a wneir gan y Ddeddf hon i adrannau 66 a 75 o Ddeddf 2014, pan fo ceisydd yn gymwys i gael cymorth a'i fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, bydd y ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael yn ddyledus iddo (gweler adran 66 o Ddeddf 2014, fel y'i diwygir gan adran 2 o'r Ddeddf hon). Bydd y ddyletswydd i sicrhau llety o dan adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i hamnewidir gan adran 6(3) o'r Ddeddf hon) yn ddyledus i geisydd sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, ac sydd â chysylltiad lleol ag awdurdod tai lleol yng Nghymru.

Adran 7: Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr yn dod i ben

50. Mae adran 7(3), drwy ddiwygio adran 76 o Ddeddf 2014, yn darparu amgylchiadau newydd pryd y bydd y ddyletswydd yn adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) yn dod i ben. O dan is-adran (7A) (a fewnosodir yn adran 76 o Ddeddf 2014 gan yr adran hon), bydd y ddyletswydd yn adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) yn dod i ben pan fo awdurdod tai lleol yn fodlon nad yw'r ceisydd yn ddigartref mwyach, bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, a'i fod yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 12 mis o leiaf, a bod y ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am ganlyniadau posibl cytuno i ddod â'r ddyletswydd o dan adran 75 i ben, wedi cytuno y dylai'r ddyletswydd ddod i ben.

51. Mae is-adran (7B), a fewnosodir yn adran 76 o Ddeddf 2014 gan yr adran hon, yn darparu bod y cyfnod o 12 mis a grybwyllir yn is-adran (7A) yn dechrau ar y diwrnod y mae'r hysbysiad sy'n cadarnhau nad yw'r awdurdod tai lleol bellach yn ystyried ei fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) yn cael ei anfon at, neu'n cael ei roi ar gael i'w gasglu gan, y ceisydd (fel sy'n ofynnol gan adran 84 o Ddeddf 2014). Fodd bynnag, os yw'r ceisydd yn garcharor neu'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, o dan is-adran (7C) (a fewnosodir hefyd yn adran 76 o Ddeddf 2014 gan yr adran hon), mae'r cyfnod o 12 mis yn dechrau ar y diwrnod y mae'r ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth neu nad yw'n ofynnol bellach iddo breswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

52. O dan is-adran (7D), a fewnosodir yn adran 76 o Ddeddf 2014 gan yr adran hon, mae'r ddyletswydd yn adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) yn dod i ben pan fo ceisydd yn garcharor sy'n bwrw dedfryd o garchar a bo'r awdurdod tai lleol yn fodlon nad yw'n rhesymol debygol y bydd y ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth cyn diwedd cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaed y cais am gymorth neu, os oes dyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 66 o Ddeddf 2014 ar unrhyw adeg ar ôl i'r cais hwnnw gael ei wneud, y diwrnod y daw'r ddyletswydd o dan adran 66 i ben.

53. Mae is-adran (7E), a fewnosodir yn adran 76 o Ddeddf 2014 gan yr adran hon, yn darparu bod y ddyletswydd yn adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) yn dod i ben yn unol ag adran 76 neu adran 79 o Ddeddf 2014, hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o dan adran 85 o'r Ddeddf honno o'r penderfyniad a arweiniodd at ddod â'r ddyletswydd i ben.

54. Mae is-adran (7F), a fewnosodir yn adran 76 o Ddeddf 2014 gan yr adran hon, yn rhoi pŵer i'r awdurdod tai lleol i sicrhau llety addas ar gyfer y ceisydd hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch adolygiad.

Adran 8: Dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref

55. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 68 a 69 o Ddeddf 2014.

56. Fel y'i diwygir gan yr adran hon, mae is-adran (2) o adran 68 o Ddeddf 2014 yn darparu bod y ddyletswydd i sicrhau llety interim yn gymwys os yw'r awdurdod yn credu bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth ond nad yw'n fodlon hyd yma o ran y materion hynny. Mae'r diwygiad hwn a'r diwygiad a wneir gan adran 8(2)(d) (i ddiddymu adran 68(3) o Ddeddf 2014) yn darparu nad oes gwahaniaeth, bellach, o ran hawlogaeth o dan adran 68 o Ddeddf 2014 rhwng y rhai sydd ag angen blaenoriaethol a'r rhai nad oes ganddynt angen blaenoriaethol.

57. Mae is-adran (2A) o adran 68 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu bod y ddyletswydd i ddarparu llety interim addas o dan adran 68(1) yn gymwys os yw'r awdurdod yn fodlon nad oes gan y ceisydd ddim cysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru a naill ai bod is-adran (2) yn gymwys neu fod yr awdurdod yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

58. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 69 o Ddeddf 2014, sy'n nodi'r amgylchiadau pryd y mae'r ddyletswydd yn adran 68 o Ddeddf 2014 yn dod i ben. Mae'r diwygiadau yn ganlyniadol ar y newidiadau a wneir gan yr adran hon i adran 68 o Ddeddf 2014, ac yn ganlyniadol ar newidiadau eraill a wneir gan y Ddeddf i Ddeddf 2014.

59. Mae is-adrannau (1A) ac (1B) o adran 69 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn caniatáu ar gyfer dod â'r ddyletswydd yn adran 68 o Ddeddf 2014 i ben pan fo'r asesiad wedi ei gwblhau ynghylch a yw'r ddyletswydd o dan adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) yn ddyledus, o dan amgylchiadau penodol. Gellir dod â'r ddyletswydd yn adran 68 o Ddeddf 2014 i ben o dan adran 69(1A) o Ddeddf 2014 (fel y'i mewnosodir) os yw'r awdurdod wedi penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus o dan adran 75 o Ddeddf 2014 am resymau heblaw oherwydd bod adran 75(4) o Ddeddf 2014 yn gymwys (nad oes gan y ceisydd nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd gysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru) ac os yw'r ceisydd wedi cael ei hysbysu am y penderfyniad hwnnw.

60. Gellir dod â'r ddyletswydd yn adran 68 o Ddeddf 2014 i ben o dan adran 69(1B) o Ddeddf 2014 (fel y'i mewnosodir) os yw'r awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus o dan adran 75 o Ddeddf 2014, a'i fod wedi gwneud hynny dim ond ar y sail bod adran 75(4) o Ddeddf 2014 yn gymwys, os yw'r ceisydd wedi cael gwybod am benderfyniad yr awdurdod, ac os yw'r awdurdod yn fodlon bod y llety a sicrhawyd o dan adran 68 o Ddeddf 2014 wedi bod ar gael yn ddigon hir i roi cyfle rhesymol i'r ceisydd ddod o hyd i lety addas. Mae is-adran (1C) o adran 69 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu bod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1B) yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd nad yw'r ddyletswydd yn adran 75 o Ddeddf 2014 yn ddyledus iddo.

61. Mae'r adran hon hefyd yn diddymu adran 69(5) a (6) o Ddeddf 2014 o ganlyniad i'r ffaith bod is-adran (1B) yn cael ei mewnosod yn adran 69 o Ddeddf 2014.

62. Mae is-adrannau (4) ac (8) o adran 69 o Ddeddf 2014 ill dwy wedi eu diddymu, ac maent yn rhan o gyfres o ddarpariaethau yn y Ddeddf sy'n cael yr effaith o ddileu'r gwahaniaeth o ran hawlogaeth yn seiliedig ar a yw person yn ddigartref yn fwriadol ai peidio.

Adran 9: Diddymu gwahaniaethau o ran hawlogaeth sy'n ymwneud ag angen blaenoriaethol

63. Mae'r adran hon yn diddymu adrannau 70, 71 a 72 o Ddeddf 2014. Effaith y diwygiadau hyn (ynghyd â diwygiadau a wneir gan y Ddeddf hon i adrannau 68 a 75 o Ddeddf 2014) yw dileu'r gwahaniaeth o ran hawlogaeth a oedd yn bodoli yn Neddf 2014 rhwng ceiswyr a oedd o fewn adran 70 (yr oedd ganddynt, felly, angen blaenoriaethol) a'r rhai nad oeddent o fewn adran 70 (ac felly nad oedd ganddynt angen blaenoriaethol).

Adran 10: Diddymu gwahaniaethau o ran hawlogaeth sy'n ymwneud â digartrefedd bwriadol

64. Mae'r adran hon yn diddymu adrannau 77 a 78 o Ddeddf 2014. Effaith y diwygiadau hyn (ynghyd â diwygiadau a wneir gan y Ddeddf hon i adrannau 68 a 75 o Ddeddf 2014) yw dileu'r gwahaniaeth o ran hawlogaeth a oedd yn bodoli yn Neddf 2014 rhwng y rhai a oedd yn ddigartref yn fwriadol a'r rhai nad oeddent yn ddigartref yn fwriadol.

Adran 11: Atgyfeirio achosion at awdurdod tai lleol arall

65. Fel y'i diwygir gan yr adran hon, mae adran 80 o Ddeddf 2014 yn galluogi awdurdodau tai lleol i atgyfeirio ceiswyr sydd, neu a all fod, â hawlogaeth i gael cymorth o dan adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) neu, yn achos pobl sydd yn y ddalfa, pan fo'r ddyletswydd yn adran 66 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) yn ddyledus, neu y gall fod yn ddyledus, ar yr amod bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio neu unrhyw amgylchiadau eraill a ragnodir mewn rheoliadau wedi eu bodloni.

66. Mae is-adran (2B), a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu na all atgyfeiriad ond digwydd cyn i awdurdod tai lleol hysbysu ceisydd fod dyletswydd o dan adran 75 yn ddyledus i'r ceisydd, gydag eithriad ar gyfer y rhai sydd yn y ddalfa. Mae hyn yn adlewyrchu adran 81A(3) o Ddeddf 2014 (fel y'i mewnosodir gan adran 13).

67. Mae diwygio is-adran (3), a dileu is-adran (4), o adran 80 o Ddeddf 2014, gan yr adran hon, yn ganlyniadol ar adran 81A o Ddeddf 2014 (fel y'i mewnosodir gan adran 13 o'r Ddeddf) yn ymdrin ag esemptiadau rhag atgyfeiriadau o dan adran 80 o Ddeddf 2014.

68. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 80 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan yr adran hon) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Adran 12: Ystyr cysylltiad lleol

69. Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau i adrannau 81 a 142 o Ddeddf 2014.

70. Mae adran 81(2) o Ddeddf 2014 yn darparu bod gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os yw'n preswylio yno fel arfer, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, a bod y preswyliad o ddewis y person ei hun, neu wedi bod o'i ddewis ei hun; bod y person yn cael ei gyflogi yno; oherwydd cysylltiadau teuluol; neu oherwydd amgylchiadau neilltuol. Mae'r meini prawf hyn i'w cymhwyso gan awdurdod tai lleol wrth benderfynu, o dan adran 80 o Ddeddf 2014, a ellir atgyfeirio ceisydd at awdurdod arall yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'r meini prawf hyn hefyd yn gymwys pan fydd awdurdodau tai lleol yn ystyried a oes rhaid iddynt sicrhau llety addas ar gyfer ceisydd o dan adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) ai peidio.

71. Mae'r adran hon yn amnewid adran 81(4) o Ddeddf 2014. Mae'n darparu pŵer i Weinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau amgylchiadau pryd y mae person, neu pryd nad yw person, i'w drin fel person sydd wedi bodloni unrhyw un neu ragor o'r meini prawf cysylltiad lleol o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Adran 13: Esemptio rhag atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall

72. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 81A yn Neddf 2014. Mae adran 81A(1) yn nodi ceiswyr sydd wedi eu hesemptio rhag eu hatgyfeirio o dan adran 80 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon).

73. Mae adran 81A(2) o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu y bydd ceisydd yn esempt rhag ei atgyfeirio os byddai'r ceisydd, neu unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd, mewn mwy o berygl o ddioddef camdriniaeth pe bai'n cael ei atgyfeirio at awdurdod arall neu'n dod o fewn categori o bersonau y caiff Gweinidogion Cymru ei ragnodi drwy reoliadau.

74. Mae adran 81A(3) o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn atal atgyfeirio ceiswyr sydd yn y ddalfa sydd wedi cael eu hysbysu o dan adran 63 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) fod dyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 (fel y'u diwygir) a bod cyfnod o ddwy wythnos wedi dod i ben ar ôl rhoi'r hysbysiad hwnnw. Ochr yn ochr ag adran 80(2B) o Ddeddf 2014 (a fewnosodir gan adran 11 o'r Ddeddf hon), mae hyn yn cyfyngu ar allu awdurdod tai lleol i atgyfeirio rhywun sydd yn y ddalfa i ddim mwy na dwy wythnos ar ôl gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch hawlogaeth i ddyletswydd.

75. Mae adran 81A(4) o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu na all ceisydd ond bod yn ddarostyngedig i atgyfeiriad o dan adran 80 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir) unwaith mewn perthynas â'r un cais.

76. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 81A(2)(b) o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Adran 14: Dyletswyddau i geiswyr mewn achosion atgyfeirio

77. Mae'r adran hon yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 82 o Ddeddf 2014, sy'n nodi'r dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod tai lleol mewn achosion atgyfeirio.

78. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 201A o Ddeddf 1996, sy'n gymwys ar ôl atgyfeirio ceisydd at awdurdod tai lleol yn Lloegr.

79. Mae adran 14(2) o'r Ddeddf yn disodli is-adran (1) o adran 82 o Ddeddf 2014, a hefyd yn mewnosod is-adrannau (1A) i (1D) yn yr adran honno. Mae is-adran (1) fel y'i disodlir yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'r dyletswyddau o dan is-adrannau (1A) ac (1B) yn gymwys. Yr amgylchiadau yw pan fo awdurdod tai lleol ("awdurdod A") wedi hysbysu awdurdod tai lleol arall ("awdurdod B") am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd o dan adran 80 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) wedi eu bodloni, a bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu yn unol ag adran 84(1B) o Ddeddf 2014 (a fewnosodir gan yr adran hon) fod awdurdod B wedi cael ei hysbysu am farn awdurdod A.

80. Mae is-adran (1A) o adran 82 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn gymwys pa un a yw awdurdod B yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'r is-adran yn darparu, pan fo awdurdod A yn hysbysu awdurdod B am ei farn o dan adran 80(2A) o Ddeddf 2014 fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd wedi eu bodloni, fod dyletswyddau awdurdod A o dan adrannau 68 a 75 o Ddeddf 2014 (fel y mae'r darpariaethau hynny wedi eu diwygio gan y Ddeddf) yn dod i ben. Fodd bynnag, rhaid i awdurdod A sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu hyd nes i'r ceisydd gael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni.

81. Mae is-adran (1B) o adran 82 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn gymwys pan fo awdurdod B yng Nghymru. Mae'n darparu, pan fo awdurdod A a B ill dau wedi cytuno (ar ôl hysbysiad o dan naill ai adran 80(2) neu (2A) o Ddeddf 2014) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd wedi eu bodloni, fod y ceisydd i'w drin fel pe bai wedi gwneud cais i awdurdod B a bod unrhyw ddyletswyddau sy'n ddyledus i'r ceisydd gan awdurdod A o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 yn dod i ben o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r ceisydd o dan adran 84(1B) o Ddeddf 2014. Mae is-adran (1B)(c) yn darparu, pan fo awdurdod A wedi penderfynu bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth, ei fod yn ddigartref neu ei fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, fod y ceisydd i'w drin felly gan awdurdod B oni bai bod yr awdurdod hwnnw yn dod i gasgliad gwahanol yn unol ag is-adran (1C) o adran 82 o Ddeddf 2014 (a fewnosodir hefyd gan yr adran hon).

82. Mae is-adran (1B) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod A ddarparu i awdurdod B gopïau o unrhyw hysbysiadau neu unrhyw ddogfennau a roddwyd i'r ceisydd o dan adran 63 neu 63A o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir ac fel y'i mewnosodir, yn y drefn honno, gan y Ddeddf hon).

83. Mae is-adran (1C) o adran 82 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu na chaiff awdurdod B ond dod i gasgliad gwahanol at ddibenion adran 82(1B) o Ddeddf 2014 (a fewnosodir hefyd gan yr adran hon) os yw'r awdurdod hwnnw yn fodlon bod amgylchiadau'r ceisydd wedi newid neu fod gwybodaeth bellach wedi dod i'r amlwg ers i awdurdod A wneud ei benderfyniad, sy'n cyfiawnhau bod awdurdod B yn dod i gasgliad gwahanol.

84. Mae is-adran (1D) o adran 82 o Ddeddf 2014, a fewnosodir gan yr adran hon, yn darparu, pan fo awdurdod B yn Lloegr a bo awdurdod A a B ill dau wedi cytuno bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd wedi eu bodloni, fod adran 201A o Ddeddf 1996 yn gymwys.

85. Mae adran 82(3) o Ddeddf 2014 (fel y'i hamnewidir gan adran 14(3) o'r Ddeddf) yn nodi pa ddyletswyddau fydd yn ddyledus gan awdurdod A i geisydd os penderfynir nad yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni.

86. Mae adran 14(5) o'r Ddeddf yn diwygio adran 82(5) o Ddeddf 2014 er mwyn darparu y bydd y dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod tai lleol yn dod i ben hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad perthnasol.

87. Mae adran 14(6) o'r Ddeddf yn diwygio adran 82(6) o Ddeddf 2014 er mwyn darparu y caiff awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i geisydd tra bo'r penderfyniad ar adolygiad yn yr arfaeth, os oedd yn ofynnol i'r awdurdod wneud hynny o dan Ddeddf 2014 cyn i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

88. Mae adran 14(7) yn mewnosod is-adran (2) yn adran 201A o Ddeddf 1996, sy'n darparu, os yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio o dan adran 80 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) wedi eu bodloni, fod y person a atgyfeirir i'w drin fel pe bai wedi gwneud cais o'r math y cyfeirir ato yn adran 183(1) o Ddeddf 1996 i'r awdurdod tai lleol yn Lloegr sy'n cael ei hysbysu ar y dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r person hwnnw fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni. O'r dyddiad hwnnw, mae dyletswyddau sy'n ddyledus gan yr awdurdod tai lleol yng Nghymru sy'n hysbysu yn dod i ben.

89. Mae is-adran (2) o adran 201A o Ddeddf 1996 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n hysbysu ddarparu copïau o hysbysiadau a dogfennau a roddwyd i geisydd o dan adran 63 neu 63A o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir ac fel y'i mewnosodir, yn y drefn honno, gan y Ddeddf hon), a sicrhau, pan fo'r awdurdod yng Nghymru sy'n hysbysu wedi penderfynu bod ceisydd yn gymwys, ei fod yn ddigartref neu ei fod o dan fygythiad o ddigartrefedd o dan Ddeddf 2014, y dylai'r awdurdod tai lleol yn Lloegr drin y ceisydd felly, oni bai bod yr awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn dod i gasgliad gwahanol. Yn yr un modd ag atgyfeiriadau o fewn Cymru (gweler adran 82 o Ddeddf 2014, fel y'i diwygir), ni chaiff yr awdurdod tai lleol yn Lloegr sy'n cael ei hysbysu ond dod i gasgliad gwahanol ar y materion hynny os yw'r awdurdod hwnnw yn fodlon bod amgylchiadau'r ceisydd wedi newid neu fod gwybodaeth bellach wedi dod i'r amlwg ers i'r awdurdod sy'n hysbysu wneud ei benderfyniad, sy'n cyfiawnhau penderfyniad gwahanol. Yn ogystal, mae is-adran (3)(b) o adran 201A o Ddeddf 1996, a fewnosodir gan yr adran hon, yn galluogi awdurdod tai lleol yn Lloegr i wneud penderfyniad gwahanol ynghylch y materion hynny pan fo gwahaniaeth o ran effaith rhwng Deddf 2014 a Deddf 1996 sy'n ymwneud â chymhwystra i gael cynhorthwy sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

Adran 15: Achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yn Lloegr

90. Mae'r adran hon yn diwygio adran 83(2) o Ddeddf 2014.

91. Mae'r diwygiadau yn ganlyniadol ar ddileu'r gwahaniaeth o ran hawlogaeth yn seiliedig ar a oedd gan berson angen blaenoriaethol ai peidio yng Nghymru a diddymu adran 73 o Ddeddf 2014.

Adran 16: Hysbysiad i geiswyr mewn achosion atgyfeirio

92. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 82 a 84 o Ddeddf 2014.

93. Mae adran 84 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol hysbysu ceiswyr am faterion penodol ac yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei rhoi yn yr hysbysiad i'r ceisydd.

94. Mae'r diwygiad i adran 84(1) o Ddeddf 2014, a wneir gan adran 16(3) o'r Ddeddf, yn egluro bod y gofynion hysbysu yn gymwys pan fo awdurdod wedi atgyfeirio ceisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeiriad o'r fath wedi eu bodloni.

95. Mae is-adran (1B), a fewnosodir yn adran 84 o Ddeddf 2014 gan adran 16(3) o'r Ddeddf, yn darparu, pan fo awdurdod tai lleol ("awdurdod A") yn hysbysu awdurdod tai lleol arall ("awdurdod B") ei fod o'r farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni o dan adran 80 o Ddeddf 2014, fod rhaid iddo hefyd hysbysu'r ceisydd ei fod wedi gwneud hynny.

96. Mae is-adran (1C), a fewnosodir yn adran 84 o Ddeddf 2014 gan adran 16(3) o'r Ddeddf, yn darparu bod rhaid i awdurdod A hefyd hysbysu'r ceisydd pan fo penderfyniad wedi ei wneud o dan adran 80(5) o Ddeddf 2014 ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd wedi eu bodloni.

97. Mae is-adran (1D), a fewnosodir yn adran 84 o Ddeddf 2014 gan adran 16(3) o'r Ddeddf, yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu i'r ceisydd o fewn hysbysiad a roddir o dan is-adran (1B) neu (1C) o adran 84 o Ddeddf 2014.

98. Mae'r diwygiadau a wneir i adran 82 o Ddeddf 2014 yn dileu darpariaethau nad oes eu hangen mwyach gan fod hysbysiadau mewn perthynas ag atgyfeiriadau wedi eu cynnwys yn adran 84 o Ddeddf 2014.

Adran 17: Cymorth i gadw llety addas a sicrhawyd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd

99. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 2014 er mwyn mewnosod adrannau 76A a 76B yn y Ddeddf honno. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud diwygiadau i adrannau 79 a 84 o Ddeddf 2014.

100. Mae is-adran (2) yn mewnosod adrannau 76A a 76B yn Neddf 2014. Mae'r adran 76A(2) a fewnosodir yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo ceisydd i gadw llety addas o dan amgylchiadau penodol. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i geiswyr nad ydynt ar hyn o bryd yn ddigartref nac o dan fygythiad o ddigartrefedd, ond sydd â llety addas a sicrhawyd neu a gadwyd gyda chymorth yr awdurdod tai lleol o dan swyddogaethau ym Mhennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014, ac yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd oni bai eu bod yn cael cynhorthwy pellach.

101. Mae is-adrannau (3) a (4) o'r adran 76A a fewnosodir yn rhoi pŵer i'r awdurdod tai lleol i barhau i gynorthwyo ceisydd ar ôl i'r ddyletswydd yn is-adran (2) o'r adran 76A a fewnosodir ddod i ben, pan fo'r ddyletswydd wedi dod i ben o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (4) neu (6) o adran 76B o Ddeddf 2014.

102. Mae'r adran 76B a fewnosodir yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'r ddyletswydd yn yr adran 76A(2) a fewnosodir yn dod i ben. Mae'r ddyletswydd o dan adran 76A(2) yn dod i ben o dan yr amgylchiadau a ganlyn, ar yr amod bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu'n briodol yn unol ag adran 84 o Ddeddf 2014:
    a. pan fo'r awdurdod yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref,
    b. pan fo'r awdurdod yn fodlon nad yw'r ceisydd mewn perygl mwyach o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd oni bai bod cymorth yn cael ei ddarparu,
    c. pan fo'r ceisydd yn meddiannu llety sydd wedi ei ddarparu neu wedi ei drefnu gan yr awdurdod tai lleol o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 a bo cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers i'r llety ddod ar gael, neu ers i'r ceisydd gael ei hysbysu bod y ddyletswydd o dan adran 76A(2) yn ddyledus,
    d. pan fo'r ceisydd yn meddiannu llety a sicrhawyd gan yr awdurdod tai lleol o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014, ond nas darparwyd ganddo, a bo cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers i'r ceisydd gael ei hysbysu bod y ddyletswydd o dan adran 66 wedi dod i ben neu ers i'r ceisydd gael ei hysbysu bod y ddyletswydd o dan adran 76A(2) yn ddyledus,
    e. pan fo'r ceisydd wedi gofyn nad yw cynhorthwy yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod tai lleol o dan adran 76A(2),
    f. yn unol â'r amgylchiadau pellach yn adran 79.

103. Mae adran 17(3) o'r Ddeddf yn diwygio adran 79(1) o Ddeddf 2014 fel y bydd yr amgylchiadau a nodir yn adran 79 yn gymwys i ddod â'r ddyletswydd yn yr adran 76A(2) a fewnosodir i ben.

104. Mae adran 17(4) o'r Ddeddf yn diwygio adran 84(1) fel y bydd y gofynion o ran hysbysiadau yn adran 84 yn gymwys pan fydd y ddyletswydd yn yr adran 76A(2) a fewnosodir yn dod i ben.

Adran 18: Dyletswydd i gysylltu â cheiswyr penodol ar ôl i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben

105. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 76C yn Neddf 2014. Mae adran 76C yn gosod dyletswydd ar awdurdod tai lleol i gadw mewn cysylltiad â cheiswyr penodol yn ystod cyfnod penodedig ar ôl i'r ddyletswydd o dan adran 75 o Ddeddf 2014 ddod i ben o dan amgylchiadau penodol.

106. Mae adran 76C(1) yn darparu y bydd y ddyletswydd yn gymwys pan oedd dyletswydd o dan adran 75 o Ddeddf 2014 yn ddyledus i geisydd, a ddaeth i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 76(7A) o Ddeddf 2014, ac nad yw'n dod o fewn is-adran (2) (o adran 76C o Ddeddf 2014). O dan adran 76(7A) o Ddeddf 2014 (a fewnosodir gan adran 7(3) o'r Ddeddf), gall yr awdurdod tai lleol ddod â'r ddyletswydd o dan adran 75 i ben os nad yw'r ceisydd yn ddigartref mwyach ac os oes llety addas (ac eithrio cynigion i ddyrannu tai cymdeithasol neu gynigion sector rhent preifat) yn debygol o fod ar gael am 12 mis o leiaf. Rhaid bod y ceisydd wedi cael hysbysiad ysgrifenedig am ganlyniadau posibl cytuno i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben, a rhaid iddo gytuno i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben.

107. dan adran 76C(2), nid yw'r ddyletswydd yn adran 76C(1) yn ddyledus os oes ar yr awdurdod tai lleol, ar ddechrau'r "cyfnod perthnasol", ddyletswydd i'r ceisydd o dan adran 76A(2) o Ddeddf 2014 (a fewnosodir gan adran 17 o'r Ddeddf), neu os yw'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol gynnal asesiad o dan adran 62 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) ar gyfer y ceisydd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod perthnasol, neu os yw eisoes wedi gwneud hynny cyn i'r cyfnod perthnasol ddechrau.

108. Mae adran 76C(3) yn darparu, pan fo'r ddyletswydd yn gymwys, fod rhaid i awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â cheisydd, ni waeth a yw wedi ei letya o fewn ei ardal ai peidio, o fewn y cyfnod perthnasol, er mwyn canfod a yw ceisydd mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd neu a yw, neu a all fod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

109. Mae adran 76C(4) yn darparu, pan fo awdurdod tai lleol yn ystyried bod y ceisydd yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd (neu mewn perygl o'r naill sefyllfa neu'r llall), fod rhaid iddo roi unrhyw wybodaeth a chyngor y mae'n ystyried eu bod yn briodol i'r ceisydd.

110. Mae adran 76C(5) yn darparu mai'r "cyfnod perthnasol" at y dibenion hyn yw cyfnod o 2 fis ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mis sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd bod y ddyletswydd a oedd yn ddyledus iddo o dan adran 75 wedi dod i ben.

Adran 19: Amgylchiadau pellach pan fo'r dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr yn dod i ben

111. Mae'r adran hon yn diwygio adran 79 o Ddeddf 2014. Mae adran 79 yn nodi amgylchiadau pellach pryd y mae dyletswyddau awdurdodau tai lleol o dan adrannau 66, 68, 75 ac 76A(2) o Ddeddf 2014 (fel y'u diwygir gan y Ddeddf) yn dod i ben. Cyfeirir at y dyletswyddau hynny isod fel "y dyletswyddau perthnasol".

112. Mae'r adran hon yn diddymu is-adran (5) o adran 79 ac yn mewnosod is-adrannau (5), (6) a (7) yn ei lle, sy'n pennu amgylchiadau pryd y mae'r dyletswyddau hynny yn dod i ben.

113. Mae'r is-adran (5) a fewnosodir yn darparu y gall y dyletswyddau hynny ddod i ben os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at unrhyw un sy'n cyflawni gweithgaredd sy'n gysylltiedig â swyddogaethau digartrefedd o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 neu â darparu llety neu wasanaethau eraill yn rhan o'r swyddogaethau hynny a bod yr ymddygiad wedi digwydd ar adeg pan fo cais y ceisydd yn cael ei ystyried a phan fo unrhyw un neu ragor o'r dyletswyddau perthnasol yn gymwys. Ond ni fydd y dyletswyddau yn dod i ben o dan yr is-adran hon os oes amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd o dan sylw barhau i fod yn gymwys.

114. Mae'r is-adran (6) a fewnosodir yn darparu y gall y dyletswyddau perthnasol ddod i ben yn dilyn difrod bwriadol neu ddi-hid i eiddo a sicrhawyd drwy arfer swyddogaethau o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014, ar adeg pan fo cais y ceisydd yn cael ei ystyried a phan fo dyletswydd yn adran 66, 68 neu 75 yn gymwys, os yw'r ceisydd, neu berson sy'n preswylio gyda'r ceisydd, yn dinistrio'r eiddo neu'n ei ddifrodi'n ddifrifol neu'n ysgogi neu'n annog ei ddifrodi neu ei ddinistrio, a'i fod naill ai wedi bwriadu dinistrio'r eiddo neu ei ddifrodi'n ddifrifol, neu wedi bod yn ddi-hid o ran a fyddai'r eiddo yn cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol. Ond ni fydd dyletswydd ond yn dod i ben o dan yr amgylchiadau hyn pan nad oes dim esgus rhesymol dros weithredoedd y person a achosodd y difrod neu'r dinistr a phan nad oes dim amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd barhau i fod yn gymwys.

115. Mae is-adran (7) yn darparu y gall dyletswyddau'r awdurdod tai lleol ddod i ben os nad yw'r ceisydd wedi ymateb i geisiadau mynych gan yr awdurdod tai lleol i gysylltu â'r ceisydd ynghylch ei gais, ac os nad yw'r awdurdod tai lleol yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd barhau i fod yn gymwys. Fodd bynnag, ni fydd y dyletswyddau ond yn dod i ben os yw'r awdurdod wedi rhoi hysbysiad rhybuddio ysgrifenedig i'r ceisydd yn nodi bod yr awdurdod, oherwydd methiant y ceisydd i ymateb i'r ceisiadau i gysylltu ag ef, yn bwriadu dod â'r ddyletswydd berthnasol i ben drwy roi hysbysiad i'r ceisydd o dan adran 84 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) nad yw bellach yn ystyried ei fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd berthnasol, ac yn nodi canlyniadau rhoi hysbysiad o'r fath (h.y. y gallai'r dyletswyddau ddod i ben). Cyn y gall y dyletswyddau ddod i ben, rhaid bod cyfnod rhesymol wedi mynd heibio ers i'r hysbysiad rhybuddio gael ei roi, a hynny heb unrhyw gyswllt gan y ceisydd.

116. Mae is-adran (8) yn darparu bod rhaid rhoi hysbysiad rhybuddio yn ysgrifenedig a'i fod i'w ystyried fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd.

Adran 20: Dyletswydd person penodedig i ofyn a gweithredu

117. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 94A (dyletswydd person penodedig i ofyn a gweithredu) ac adran 94B (personau penodedig) yn Neddf 2014. Mae cyfeiriadau isod at adrannau 94A a 94B yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny fel y'u mewnosodir.

118. Mae adran 94A o Ddeddf 2014 yn darparu, os yw person penodedig (fel y'i diffinnir yn adran 94B o Ddeddf 2014) yn ystyried bod unigolyn yng Nghymru y mae'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, fod rhaid i'r person penodedig ofyn a yw'r unigolyn yn cytuno i'r person penodedig hysbysu awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr fod y person penodedig yn meddwl bod yr unigolyn yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, a sut y gellir cysylltu â'r unigolyn. Rhaid i'r person penodedig hefyd ofyn pa awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yr hoffai'r unigolyn i'r hysbysiad gael ei wneud iddo.

119. Os yw'r unigolyn yn cytuno, rhaid i'r person penodedig hysbysu'r awdurdod tai lleol a enwyd gan yr unigolyn. Os yw'r unigolyn yn cytuno ond nad yw wedi enwi awdurdod tai lleol penodol, rhaid i'r person penodedig hysbysu'r awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr y mae'r person penodedig yn ystyried ei fod yn briodol.

120. Pan fo hysbysiad yn cael ei wneud i awdurdod tai lleol yng Nghymru, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai'n gais gan yr unigolyn i'r awdurdod tai lleol o dan adran 62(1)(a) o Ddeddf 2014. Mae hyn yn golygu y bydd hysbysiad o dan adran 94A o Ddeddf 2014 yn sbarduno dyletswydd awdurdod tai lleol i asesu achos yr unigolyn o dan adran 62 o Ddeddf 2014 fel pe bai'r unigolyn wedi gwneud cais i'r awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i gadw neu i gael llety.

121. Mae adran 94A(5) yn nodi camau gweithredu eraill y mae rhaid i'r person penodedig eu cymryd. Y camau gweithredu yw: darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth a chyngor, ystyried camau gweithredu eraill y gallai, yn rhesymol, eu cymryd (a chymryd y camau gweithredu hynny) (wrth arfer ei swyddogaethau presennol) i gynorthwyo unigolyn i gadw neu i sicrhau llety addas, ac ystyried a yw'r ffaith ei fod yn ystyried bod yr unigolyn yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, neu y gall fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, yn effeithio ar sut y mae'n arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw.

122. Mae adran 94A(6) yn darparu nad yw'r dyletswyddau yn is-adran (5)(b) ac (c) o adran 94A yn ymyrryd â hawliau cyfreithiol presennol person penodedig i sicrhau meddiant gwag o lety.

123. Mae adran 94A(7) yn darparu nad yw'r gofyniad i hysbysu awdurdod tai lleol yn gymwys os yw'r unigolyn wedi gwneud cais i awdurdod tai lleol yng Nghymru o dan adran 62(1)(a) o Ddeddf 2014, neu i awdurdod tai lleol yn Lloegr o dan adran 183 o Ddeddf 1996, am gynhorthwy a naill ai bod y cais yn cael ei ystyried neu fod dyletswydd yn gymwys o dan y naill neu'r llall o'r Deddfau hynny i sicrhau llety neu i ddarparu mathau eraill o gymorth fel arall.

124. Mae adran 94B(1) yn nodi'r "personau penodedig" y bydd y ddyletswydd yn adran 94A yn gymwys iddynt.

125. Mae adran 94B(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o bersonau penodedig drwy ddileu, ychwanegu neu newid cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson.

126. Mae adran 94B(3) yn darparu y caiff y rheoliadau ddileu cyfeiriad at awdurdod a gedwir yn ôl, neu ddisgrifiad o berson sy'n cynnwys awdurdod a gedwir yn ôl. Mae hefyd yn darparu y caiff y rheoliadau ychwanegu awdurdodau a gedwir yn ôl ychwanegol at y rhestr, ond dim ond gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ogystal, mae adran 94B(3) yn darparu na chaniateir gwneud unrhyw newidiadau i gyfeiriad at awdurdod a gedwir yn ôl, neu at ddisgrifiad o berson sy'n cynnwys awdurdod a gedwir yn ôl, sy'n cael yr effaith o addasu swyddogaethau'r awdurdod a gedwir yn ôl o dan adran 94A, drwy reoliadau ond gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol neu, yn achos awdurdod a gedwir yn ôl sy'n Weinidog y Goron, ond yn dilyn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

127. Mae adran 94B(4) yn darparu y caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (2)(b) neu (c) o adran 94B ddisgrifio person drwy gyfeirio at arfer disgresiwn gan berson arall, ac y cânt bennu achosion neu amgylchiadau pryd y mae'r cyfeiriad at berson, neu at ddisgrifiad o berson, yn gymwys.

128. Mae adran 20(3) yn diwygio adran 98 o Ddeddf 2014 (canllawiau) er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodedig, fel y'u rhestrir yn adran 94B, roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan adran 94A.

129. Mae'r diwygiad a wneir gan adran 20(4) i adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf 2014 yn darparu bod unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i addasu'r rhestr o bersonau penodedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 94A yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Adran 21: Dyletswydd i atgyfeirio personau yn Lloegr at awdurdod tai lleol yng Nghymru

130. Mae'r adran hon yn diwygio adran 213B o Ddeddf 1996, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol yn Lloegr i atgyfeirio person sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu a all fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, at awdurdod tai lleol yn Lloegr a enwyd gan y person hwnnw (gyda chydsyniad y person). Fel y'i diwygir gan adran 21 o'r Ddeddf, mae'r ddyletswydd yn adran 213B o Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno yn Lloegr atgyfeirio person at awdurdod tai lleol yng Nghymru pan fo'r person yn pennu awdurdod yng Nghymru ac yn cydsynio i gael ei atgyfeirio.

131. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod is-adran (3A) yn adran 213B o Ddeddf 1996. Mae'r is-adran (3A) a fewnosodir yn darparu, pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud at awdurdod tai lleol yng Nghymru o dan adran 213B o Ddeddf 1996, fod yr atgyfeiriad i'w drin fel pe bai'n gais gan y person i'r awdurdod tai lleol hwnnw o dan adran 62(1)(a) o Ddeddf 2014. Mae hyn yn golygu y bydd hysbysiad o dan adran 213B o Ddeddf 1996 yn sbarduno dyletswydd yr awdurdod tai lleol i asesu achos person o dan adran 62 o Ddeddf 2014 fel pe bai'r person wedi gwneud cais i'r awdurdod tai lleol yng Nghymru am lety neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety.

Adran 22: Dyletswydd i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal lety addas

132. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 108A (dyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i bersonau sy'n gadael gofal) ac adran 109A (ystyr llety addas) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cyfeiriadau isod at adrannau 108A a 109A yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny a fewnosodir.

133. Mae adran 108A(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc, pan fo'n ofynnol i lesiant y person ifanc, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas (fel y'i diffinnir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 109A o Ddeddf 2014, fel y'i mewnosodir gan y Ddeddf) ar gael i'r person ifanc ei feddiannu yn ystod y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person ifanc yn cyrraedd 18 oed, ac mewn perthynas â phersonau ifanc categori 3, yn ystod cyfnod dilynol pan fydd dyletswydd yn ddyledus i'r person ifanc o dan adran 110 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys mewn perthynas â pherson ifanc categori 1, 2, 5 neu 6, ac, yn achos person ifanc categori 1 neu 2, mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r person ddod yn berson ifanc categori 3.

134. Mae adran 108A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc, pan fo'n ofynnol i lesiant y person ifanc, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r person ifanc ei feddiannu yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ag—

a. y diwrnod y mae dyletswydd yr awdurdod o dan adran 110 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dod i ben mewn perthynas â pherson ifanc categori 3,
b. y diwrnod y mae dyletswydd yr awdurdod o dan adran 112 o'r Ddeddf honno yn dod i ben mewn perthynas â pherson ifanc categori 4,
c. y diwrnod y mae'r addysg bellach neu uwch, y mae'n bosibl bod cymorth o dan adran 114(3) neu (5) o'r Ddeddf honno wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yn dod i ben ar gyfer person ifanc categori 5 neu berson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 5, neu
d. y diwrnod y mae'r addysg bellach neu uwch, y mae'n bosibl bod cymorth o dan adran 115(4) neu (6) o'r Ddeddf honno wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yn dod i ben ar gyfer person ifanc categori 6 neu berson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 6.

135. Mae adran 108A(3) yn nodi'r categorïau o bersonau ifanc y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt. Mae'r ddyletswydd yn adran 108A(4) yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r person ifanc beidio â dod o fewn unrhyw un o'r categorïau hyn pan fo'n ofynnol i lesiant y person ifanc.

136. Mae adran 108A(5) yn darparu na chaniateir ystyried bod llety ar gael i berson ifanc ei feddiannu ond os yw ar gael i'r person ifanc hwnnw ei feddiannu ynghyd ag unrhyw un y gellid disgwyl yn rhesymol i'r person ifanc hwnnw fyw gydag ef.

137. Mae adran 108A(6) yn darparu, pan amherir ar raglen addysg neu hyfforddiant y mae person ifanc yn ei dilyn, y dylid diystyru hyn at ddiben adran 108A(3) a (4), ar yr amod bod yr awdurdod lleol cyfrifol yn fodlon y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen hyfforddiant neu addysg cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

138. Mae adran 109A(2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ystyr "llety addas" at ddibenion adran 108A ac adran 109 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth drwy gyfeirio at unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r llety (gan gynnwys (ymysg pethau eraill) addasrwydd darparwr y llety; amodau meddiannu'r llety gan y person ifanc; natur neu safon y llety; a lleoliad y llety) neu drwy gyfeirio at nodweddion neu amgylchiadau personol y person ifanc neu unrhyw berson y gellid disgwyl yn rhesymol i'r person ifanc hwnnw breswylio gydag ef.

Adran 23: Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau sy'n gadael gofal etc.

139. Mae'r adran hon yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014, sydd (ymysg pethau eraill) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng ei swyddogion sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n arfer ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol at ddiben cyflawni'r amcanion a nodir yn adran 95(1) o Ddeddf 2014 sy'n ymwneud â digartrefedd.

140. Un o'r amcanion yw arfer swyddogaethau awdurdod lleol yn effeithiol o dan Ran 2 o Ddeddf 2014 (gweler adran 95(1)(d) o Ddeddf 2014). Mae adran 23(2) o'r Ddeddf yn diwygio adran 95(1)(d) o Ddeddf 2014 er mwyn darparu bod yr amcan hefyd yn cynnwys arfer swyddogaethau'r awdurdod yn effeithiol, mewn perthynas â phobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

141. Mae adran 23(3) yn mewnosod is-adrannau (1A) ac (1B) ar ôl adran 95(1) o Ddeddf 2014. Mae'r is-adran (1A) a fewnosodir yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau y mae'n ofynnol, gan is-adran (1), eu gwneud gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl 16 neu 17 oed sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd; anghenion llety a chefnogaeth personau sy'n gadael gofal; ac anghenion llety a chefnogaeth personau sy'n gadael gofal a phobl 16 neu 17 oed sy'n gadael llety cadw ieuenctid, y carchar neu fangre a gymeradwywyd. Mae'r is-adran (1B) a fewnosodir yn diffinio "personau sy'n gadael gofal" at y dibenion hynny.

Adran 24: Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau y mae angen cefnogaeth arnynt yn benodol

142. Mae'r adran hon yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014 er mwyn mewnosod is-adrannau (1C) i (1E) yn yr adran honno. Mae cyfeiriadau isod at is-adrannau (1C), (1D) ac (1E) yn gyfeiriadau at yr is-adrannau hynny a fewnosodir.

143. Mae is-adran (1C) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhyngddo ef ei hun a'r personau a restrir yn is-adran (1D) sy'n arfer swyddogaethau yn ei ardal y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Nodau'r trefniadau cydweithredu yw: atal digartrefedd; sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref; sicrhau bod cefnogaeth foddhaol ar gael ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref; cydgysylltu achosion yn effeithiol, gan bersonau a grybwyllir yn is-adran (1D), ynghylch pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref ac y mae'n bosibl bod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt hefyd; a chyflawni swyddogaethau'r awdurdod yn effeithiol o dan Ran 2 o Ddeddf 2014.

144. Mae is-adran (1D) yn nodi'r personau y mae'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol hybu cydweithredu â hwy. Mae hyn yn cynnwys y cyrff a restrir yn adran 95(5) o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan adran 31 o'r Ddeddf) ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus eraill, unrhyw sefydliadau gwirfoddol eraill neu unrhyw berson arall y gallai eu swyddogaethau neu eu gweithgareddau gyfrannu at gyflawni nodau'r trefniadau.

145. Mae adran 95(1E) yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau hynny gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref ac y mae ganddynt hefyd anghenion eraill yn ogystal â'u hanghenion tai, gan gynnwys, er enghraifft, gefnogaeth neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid; gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron; camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau eraill; neu iechyd meddwl.

Adran 25: Gwarchod eiddo: carcharorion

146. Mae adran 93 o Ddeddf 2014 yn gosod gofyniad ar awdurdod tai lleol i gymryd camau rhesymol i atal colli eiddo personol ceisydd y mae dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66, 68, 75 neu 82 o Ddeddf 2014 (fel y'u diwygir gan y Ddeddf), neu i atal neu liniaru niwed i'r eiddo hwnnw, os nad oes unrhyw drefniadau addas wedi eu gwneud neu'n cael eu gwneud i warchod yr eiddo a'i fod yn credu bod perygl y bydd yr eiddo'n cael ei golli neu ei niweidio o ganlyniad i anallu'r ceisydd i'w warchod neu i ymdrin ag ef. Mae awdurdod tai lleol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon hyd yn oed os yw'r dyletswyddau o dan adran 66, 68, 75 neu 82 yn dod i ben.

147. Mae'r adran hon yn diwygio adran 93 o Ddeddf 2014 er mwyn darparu bod y ddyletswydd yn adran 93 yn gymwys i unigolion tra bônt yn y ddalfa er nad oes gan yr unigolyn hawlogaeth i gael cymorth o dan adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i mewnosodir gan y Ddeddf) oherwydd bod yr unigolyn yn y ddalfa ac nad yw'n rhesymol debygol y bydd yn cael ei ryddhau o fewn chwe mis (gweler adran 75(7) a fewnosodir gan y Ddeddf hon).

Adran 26: Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy: personau a gedwir yn gaeth

148. Mae'r adran hon yn diwygio adran 60 o Ddeddf 2014.

149. Mae adran 26(a) yn diwygio adran 60(1) er mwyn egluro bod y ddyletswydd ar awdurdod tai lleol i sicrhau y darperir gwasanaeth sy'n darparu cyngor, gwybodaeth a chynhorthwy i bobl yn gymwys i bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn ardal yr awdurdod, neu sydd â chysylltiad lleol â'r ardal (ond sy'n cael eu cadw'n gaeth y tu allan i'r ardal).

150. Mae adran 26(b) yn diwygio adran 60(4)(a) er mwyn darparu bod y gwasanaeth y cyfeirir ato yn adran 60(1) wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion pobl sydd yn y carchar, yn ogystal â'r bobl hynny sy'n gadael y carchar.

Adran 27: Y diffiniad o "camdriniaeth"

151. Mae'r adran hon yn amnewid y diffiniad o "camdriniaeth" yn adran 58 o Ddeddf 2014. O ganlyniad i'r diwygiad, ystyr "camdriniaeth" yw "camdriniaeth ddomestig" (o fewn yr ystyr a roddir i "domestic abuse" gan adran 1 o Ddeddf Camdriniaeth Ddomestig 2021) neu unrhyw fath arall o gamdriniaeth a all arwain at berygl o niwed, gan gynnwys, er enghraifft, gamfanteisio (o fewn yr ystyr a roddir i "exploitation" yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015) ac aflonyddu neu stelcio (o fewn yr ystyr a roddir i "harassment" a "stalking" yn Neddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997).

Adran 28: Dyletswydd i geisio safbwyntiau personau digartref wrth arfer swyddogaethau digartrefedd

152. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 52, 60 a 98 o Ddeddf 2014.

153. Mae adran 50 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol lunio a mabwysiadu strategaeth i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae adran 52 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch amcanion a chynnwys y strategaethau digartrefedd hynny ac ynghylch gofynion ymgynghori. Mae adran 28(2) o'r Ddeddf yn diwygio adran 52(8) o Ddeddf 2014 er mwyn cynnwys pobl yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yn y rhestr o bobl a chyrff y mae rhaid i'r awdurdod tai lleol ymgynghori â hwy (os yw'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol) cyn mabwysiadu neu newid ei strategaeth ddigartrefedd.

154. Mae adran 60 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol drefnu i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael gafael ar gymorth, am ddim, i bobl yn eu hardal, neu i'r rheini a chanddynt gysylltiad lleol â'r ardal, ynghylch materion sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Rhaid i'r awdurdodau tai lleol weithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol ac eraill i sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion y rhai sydd mewn perygl arbennig o ddigartrefedd. Mae adran 28(3) yn diwygio adran 60(4) o Ddeddf 2014 fel bod rhaid i awdurdodau tai lleol hefyd weithio gyda phobl yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd at y diben hwnnw.

155. Mae adran 98 o Ddeddf 2014 yn ymwneud â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf 2014 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol roi sylw i ganllawiau o'r fath pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â digartrefedd.

156. Mae adran 28(4) yn mewnosod adran 98(5) yn Neddf 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw awdurdodau cyhoeddus neu leol, unrhyw sefydliadau gwirfoddol, ac unrhyw bobl yng Nghymru sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, yn ogystal ag unrhyw bersonau eraill, y maent yn ystyried eu bod yn briodol, cyn rhoi neu newid canllawiau o dan Ran 2 o Ddeddf 2014, neu dynnu canllawiau o'r fath yn ôl.

Adran 29: Addasrwydd llety

157. Mae'r adran hon yn diwygio adran 59 o Ddeddf 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol roi sylw i'r ddeddfwriaeth a restrir yn is-adran (1) o adran 59 pan fydd yn penderfynu a yw llety yn addas ar gyfer person. Mae adran 29(b) yn diwygio'r rhestr yn adran 59(1) o Ddeddf 2014 er mwyn cynnwys Rhan 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau).

158. Mae adran 29(a) yn gwneud diwygiad ychwanegol i adran 59 o Ddeddf 2014 er mwyn darparu bod y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn yr adran honno yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn, o dan, neu yn rhinwedd y deddfiadau a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf 2014.

159. Effaith y diwygiad yw bod rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ac unrhyw ddeddfwriaeth a wneir o dan neu yn rhinwedd y Rhan honno, pan fydd yn penderfynu a yw llety yn addas ar gyfer person o dan adran 59 o Ddeddf 2014.

Adran 30: Adroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim

160. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 97A (adroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim) yn Neddf 2014.

161. Mae adran 97A(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar ddefnydd a chyflwr llety interim a sicrheir gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru o dan adrannau 68 a 75 o Ddeddf 2014 (fel y mae'r darpariaethau hynny wedi eu diwygio gan y Ddeddf). Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei osod gerbron Senedd Cymru, a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

162. dan adran 97A(2), rhaid i awdurdodau tai lleol ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol ganddynt at ddibenion yr adroddiad hwnnw. Er enghraifft, efallai y bydd ar Weinidogion Cymru angen gwybodaeth am lefelau stoc, lleoliadau mewn llety dros dro neu gyflwr stoc er mwyn cwblhau'r adroddiad.

163. dan adran 97A(3), rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei osod a'i gyhoeddi ar 31 Rhagfyr 2030 neu cyn hynny. Wedi hynny, mae adran 97A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod a chyhoeddi adroddiad dilynol bob pum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad diwethaf.

Adran 31: Cydweithredu

164. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 95 a 142 o Ddeddf 2014. O dan adran 95(2) o Ddeddf 2014, os yw awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad gan unrhyw un o'r cyrff a restrir yn adran 95(5) o'r Ddeddf honno wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno, mae dyletswydd ar y corff i gydymffurfio â'r cais oni bai y byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag arfer ei swyddogaethau neu y byddai'n cael effaith andwyol ar ei ddyletswyddau. Mae hefyd yn ofynnol (gan adran 95(3) o Ddeddf 2014) i'r cyrff hynny gydymffurfio â cheisiadau gan awdurdod tai lleol i ddarparu gwybodaeth iddo sy'n ofynnol ganddo er mwyn arfer ei swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2014.

165. Mae adran 31(2) o'r Ddeddf yn disodli is-adrannau (5) i (8) o adran 95 o Ddeddf 2014 er mwyn ehangu'r rhestr o gyrff y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithredu ag awdurdod tai lleol a darparu gwybodaeth iddo. Mae'r rhestr hwy o gyrff wedi ei nodi yn yr is-adran (5) a fewnosodir. Mae cyfeiriadau isod at is-adrannau (5), (6), (7) ac (8) yn gyfeiriadau at yr is-adrannau hynny a fewnosodir.

166. Mae is-adran (6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diwygio'r rhestr honno o gyrff drwy ddileu, ychwanegu neu newid cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson.

167. Mae is-adran (7) yn galluogi'r rheoliadau hynny i ddileu cyfeiriad at awdurdod a gedwir yn ôl, neu ddisgrifiad o berson sy'n cynnwys awdurdod a gedwir yn ôl, o'r rhestr yn is-adran (5). Mae hefyd yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau sy'n ychwanegu awdurdodau a gedwir yn ôl ychwanegol at y rhestr honno ond gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ogystal, mae is-adran (7) yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau sy'n newid cyfeiriad at awdurdod a gedwir yn ôl, neu at ddisgrifiad o berson sy'n cynnwys awdurdod a gedwir yn ôl, yn y rhestr honno mewn ffordd sy'n addasu swyddogaethau'r awdurdod, ond gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol neu, yn achos awdurdod sy'n Weinidog y Goron, ond yn dilyn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y newid.

168. Mae is-adran (8) yn galluogi rheoliadau a wneir o dan is-adran (6)(b) neu (c) i ddisgrifio person drwy gyfeirio at arfer disgresiwn gan berson arall, ac i bennu achosion neu amgylchiadau pryd y mae'r cyfeiriad at berson, neu at ddisgrifiad o berson, yn gymwys.

169. Mae'r diwygiad a wneir gan adran 31(3) i adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf 2014 yn darparu bod y rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Adran 32: Cydweithredu rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol

170. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 96A (cydweithredu rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol) ac 96B (cyfarwyddydau i'w gwneud yn ofynnol cydymffurfio â cheisiadau o dan adran 96A) yn Neddf 2014. Mae cyfeiriadau isod at adrannau 96A ac 96B yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny a fewnosodir.

171. Mae adran 96A yn galluogi awdurdodau tai lleol i wneud cais i landlord cymdeithasol, sy'n dal llety yn ardal yr awdurdod lleol at ddibenion sy'n ymwneud â thai, gynnig llety addas i geisydd y mae dyletswydd o dan adran 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf hon) yn ddyledus iddo. Diffinnir landlordiaid cymdeithasol yn adran 96A(2) fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig (fel y'u diffinnir yn adran 99 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf)).

172. Mae adran 96A(3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol, cyn gwneud cais o'r fath, ystyried argaeledd llety addas a ddelir ganddynt yn eu hardal (os oes llety o gwbl).

173. Mae adran 96A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â chais gan awdurdod tai lleol o fewn cyfnod rhesymol, oni bai bod gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â gwneud hynny.

174. Mae adran 96A(5) yn gosod dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol sy'n darparu llety yn ardal awdurdod tai lleol i gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth y caiff yr awdurdod tai lleol ei wneud mewn perthynas â'r llety hwnnw ac mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 96A.

175. Mae adran 96A(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau ar yr hyn sy'n rheswm da dros wrthod cais, yr hyn sy'n gyfnod rhesymol, a'r hyn sy'n gais rhesymol at ddibenion adran 96A. Rhaid i landlordiaid cymdeithasol roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath (gweler adran 96A(8)).

176. dan adran 96A(7), cyn rhoi canllawiau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw gymdeithasau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru, unrhyw gymdeithasau sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol.

177. Mae adran 96B yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag anghydfodau rhwng landlord cymdeithasol ac awdurdod tai lleol sy'n ymwneud ag a oedd gan landlord cymdeithasol reswm da dros fethu â chydymffurfio â chais o fewn cyfnod rhesymol, a methiant gan landlord cymdeithasol i ymateb o fewn cyfnod rhesymol i gais.

178. dan adran 96B(1) i (3), gall awdurdod tai lleol atgyfeirio mater at Weinidogion Cymru pan na fo landlord cymdeithasol wedi cydymffurfio â chais o fewn cyfnod rhesymol a phan na fo'r awdurdod tai lleol, ar ôl rhoi sylw i unrhyw esboniad a ddarparwyd gan y landlord cymdeithasol, yn ystyried bod gan y landlord cymdeithasol reswm da dros fethu â chydymffurfio â'r cais.

179. Gall awdurdod tai lleol hefyd atgyfeirio mater at Weinidogion Cymru pan na fo landlord cymdeithasol wedi ymateb i gais o fewn cyfnod rhesymol.

180. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cael atgyfeiriad o'r fath gan awdurdod tai lleol, rhaid iddynt hysbysu'r landlord cymdeithasol am yr atgyfeiriad a'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn perthynas ag ef (gweler adran 94B(4)).

181. Mae adran 96B(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo'r landlord cymdeithasol i gydymffurfio â'r cais o fewn cyfnod penodedig os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried yr atgyfeiriad ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y landlord cymdeithasol, yn ystyried nad oes gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r cais neu nad ymatebodd i gais o'r fath. Mae adran 96B(6) yn ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan is-adran (5).

182. Mae adran 96B(7) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyfarwyddyd o'r fath fod yn ysgrifenedig, ac mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd drwy gyfarwyddyd diweddarach. Mae'n darparu ymhellach y gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan is-adran (5) drwy orchymyn gorfodi ar gais gan, neu ar ran, Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod tai lleol a wnaeth yr atgyfeiriad.

Adran 33: Gweld llety

183. Mae adrannau 67(4) ac 76(3) o Ddeddf 2014 yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddod â dyletswydd sy'n ddyledus i geisydd o dan adrannau 66 a 75 o'r Ddeddf honno (fel y'u diwygir gan y Ddeddf), yn y drefn honno, i ben pan fydd ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniadau posibl ei wrthod, yn gwrthod cynnig o lety addas.

184. Ni ddiwygir y darpariaethau hynny gan y Ddeddf (ac maent yn parhau i fod yn eu lle), ond mae adran 96C (a fewnosodir gan adran 33) yn gosod gofyniad ychwanegol ar awdurdodau tai lleol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau rhesymol i ddarparu i'r ceisydd gyfle i weld y llety a gynigir (naill ai'n bersonol neu fel arall) cyn i'r ceisydd benderfynu derbyn y cynnig neu ei wrthod.

RHAN 2 - DYRANNU TAI CYMDEITHASOL

Adran 34: Anghymwystra ar gyfer dyraniad tai o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol

185. Mae adran 34 yn diwygio adran 160A(7) o Ddeddf 1996. Mae adran 160A(7) yn caniatáu i awdurdod tai lleol yng Nghymru drin person fel pe bai'n anghymwys i gael dyraniad tai cymdeithasol os yw'r person, neu aelod o aelwyd y person, wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i wneud y person neu aelod o aelwyd y person yn anaddas i fod yn denant a bod y person hwnnw yn dal i gael ei ystyried yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw pan ystyrir cais y person. Mae'r diwygiad a wneir gan adran 34 o'r Ddeddf yn darparu, wrth benderfynu a ddylid trin person fel pe bai'n anghymwys i gael dyraniad yn sgil ymddygiad annerbyniol, fod rhaid i'r awdurdod tai lleol yng Nghymru ystyried, yn benodol, y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad annerbyniol hwnnw'n digwydd eto. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried camau a gymerwyd ers i'r ymddygiad ddigwydd sy'n awgrymu bod llai o risg y bydd yr ymddygiad yn digwydd eto.

Adran 35: Dim ffafriaeth i bersonau sy'n ceisio manipiwleiddio'r system dai

186. Mae'r adran hon yn diwygio adran 167 o Ddeddf 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol yng Nghymru gael cynllun a gweithdrefn ar gyfer dyrannu llety tai y mae rhaid iddynt gydymffurfio â hwy pan fyddant yn dyrannu tai. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod adran newydd 167A.

187. dan adran 167 o Ddeddf 1996, rhaid i gynllun dyrannu awdurdod tai lleol sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol i'r categorïau o bobl a restrir yn adran 167(2), yn ddarostyngedig i'r eithriadau cyfyngedig yn is-adrannau (2ZA) a (2B). Mae adran 35(2) yn diwygio adran 167 o Ddeddf 1996. Mae'n mewnosod is-adrannau (2DA) a (2DB). Effaith y diwygiadau a wneir gan adran 35(2) o'r Ddeddf yw nad yw'n ofynnol i awdurdodau tai lleol yng Nghymru roi ffafriaeth resymol i berson sy'n ddigartref neu y mae dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 (fel y mae'r darpariaethau hynny wedi eu diwygio gan y Ddeddf), os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai (gweler adran 167A o Ddeddf 1996, fel y'i mewnosodir gan adran 35(3), am ystyr ceisio manipiwleiddio'r system dai). Fodd bynnag, mae'n ofynnol o hyd i'r awdurdod tai lleol yng Nghymru roi unrhyw ffafriaeth resymol y gall person fod â hawlogaeth iddi o dan y categorïau ffafriaeth resymol eraill.

188. Mae adran 35(2) hefyd yn diwygio adran 167(4A)(b) o Ddeddf 1996 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynllun dyrannu awdurdod tai lleol ddarparu, pan fo'r awdurdod yn penderfynu na ddylid rhoi ffafriaeth o dan is-adran (2)(a) na (b) i berson ar y sail bod yr awdurdod yn fodlon bod y person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai, fod rhaid i'r awdurdod hysbysu'r person yn ysgrifenedig am y penderfyniad a'r seiliau dros wneud y penderfyniad. Mae hawl hefyd gan y person i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

189. Mae adran 35(3) yn mewnosod adran 167A (ystyr ceisio manipiwleiddio'r system dai) yn Neddf 1996. Mae'n nodi'r amgylchiadau pryd yr ystyrir bod person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai at ddibenion dyrannu llety o dan adran 167(2DB) o Ddeddf 1996 (fel y'i mewnosodir gan adran 35(2) o'r Ddeddf).

190. Mae dwy ffordd y bydd person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai at ddibenion adran 167(2DB). Mae'r ffordd gyntaf wedi ei nodi yn adran 167A(2) o Ddeddf 1996. Mae'n darparu bod person ("P") yn ceisio manipiwleiddio'r system dai os yw P yn ddigartref neu os oes dyletswyddau yn ddyledus i P o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) oherwydd bod P wedi gwneud rhywbeth yn fwriadol, neu wedi methu â gwneud rhywbeth yn fwriadol, a arweiniodd at P yn peidio â meddiannu llety a oedd ar gael i P ac y byddai wedi bod yn rhesymol i P barhau i feddiannu'r llety—

a. os gwnaeth P (neu os na wnaeth P) y peth hwnnw i alluogi P i fod â hawlogaeth i gael cymorth o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 neu er mwyn gwella'r tebygolrwydd y byddai llety yn cael ei ddyrannu i P o dan Ran 6 o Ddeddf 1996, neu
b. os cafodd P wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth arall, cyn gwneud (neu beidio â gwneud) y peth hwnnw, a oedd yn ddigonol at ddiben galluogi P i barhau i feddiannu'r llety hwnnw.

191. Fodd bynnag, pan weithredodd P (neu pan fethodd P â gweithredu) yn ddidwyll o dan amgylchiadau pan nad oedd yn ymwybodol o ffaith berthnasol, ni fydd y weithred honno (neu'r anweithred honno) yn cael ei thrin fel un fwriadol.

192. Mae'r ail ffordd y bydd person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai at ddibenion adran 167(2DB) wedi ei nodi yn adran 167A(4) o Ddeddf 1996. O dan yr adran honno, mae person ("P") yn ceisio manipiwleiddio'r system dai—

a. os yw P yn ddigartref neu os oes dyletswyddau yn ddyledus i P o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygir gan y Ddeddf) oherwydd bod P wedi ymrwymo i drefniant a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i P adael llety y byddai P wedi gallu parhau i'w feddiannu'n rhesymol fel arall,
b. os mai diben y trefniant oedd galluogi P i ennill hawlogaeth i gael cymorth o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014 neu wella'r tebygolrwydd y byddai llety yn cael ei ddyrannu i P o dan Ran 6 o Ddeddf 1996, ac
c. os nad oes rheswm da arall pam y daeth P yn ddigartref.

Adran 36: Ffafriaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal

193. Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau pellach i adran 167 o Ddeddf 1996, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau dyrannu tai awdurdodau tai lleol yng Nghymru.

194. Mae adran 36 yn diwygio adran 167(2) o Ddeddf 1996 drwy fewnosod paragraff (ba), sy'n ychwanegu grŵp newydd o bobl y mae rhaid rhoi ffafriaeth resymol iddynt o dan gynllun dyrannu tai awdurdod tai lleol. Y grŵp hwnnw yw pobl y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol cyfrifol gymryd camau rhesymol mewn perthynas â hwy i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu o dan adran 108A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a fewnosodir gan adran 22 o'r Ddeddf).

Adran 37: Cofrestrau tai

195. Mae adran 37 yn mewnosod adrannau 160B (cynigion o lety tai a ddelir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig: Cymru), 160C (cofrestrau tai cyffredin: Cymru), 160D (rheoliadau ynghylch cofrestrau tai cyffredin) a 160E (cofrestrau tai hygyrch) yn Neddf 1996. Mae cyfeiriadau isod at adrannau 160B, 160C, 160D a 160E yn gyfeiriadau at yr adrannau hynny a fewnosodir.

196. Mae adran 160B yn gosod dyletswyddau ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig yng Nghymru mewn perthynas â dyrannu llety tai o dan drefniadau enwebu gydag awdurdodau tai lleol yng Nghymru.

197. Mae adran 160B(1) yn darparu nad yw'r ddyletswydd yn adran 160B(2) yn gymwys ond mewn perthynas â llety tai a gynigir gan landlord cymdeithasol cofrestredig neu ddarparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig o dan drefniadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod llety (neu ran benodedig ohono) yn cael ei roi ar gael i berson a enwebir gan awdurdod tai lleol yng Nghymru. Diffinnir y term "arrangements" ("trefniadau") yn is-adran (4) fel trefniadau a wneir mewn cysylltiad â dyrannu llety tai o dan Ran 6 o Ddeddf 1996, ac mae'n cynnwys trefniadau sy'n orfodadwy yn gyfreithiol a threfniadau anffurfiol.

198. Mae adran 160B(2) yn gosod dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig i gynnig llety dim ond i bersonau sydd wedi eu cynnwys ar y gofrestr tai cyffredin ar gyfer ardal yr awdurdod tai lleol yng Nghymru y mae'r llety ynddi.

199. Mae adran 160B(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu amgylchiadau pryd nad yw'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

200. Mae adran 160C yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol yng Nghymru sefydlu a chynnal cofrestr tai cyffredin, sy'n gofrestr o bersonau y caniateir dyrannu llety tai yn eu hardal iddynt. Rhaid i'r gofrestr hon gynnwys pob person sy'n gwneud cais i'r awdurdod tai lleol am lety, ar yr amod nad yw'n anghymwys i gael llety wedi ei ddyrannu iddo.

201. Mae adran 160C(3) yn caniatáu i awdurdod tai lleol gynnwys person ar y gofrestr tai cyffredin heb i'r person fod wedi gwneud cais am lety tai os yw'r awdurdod yn penderfynu bod y person yn gymwys i gael dyraniad.

202. Mae adran 160D(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, mewn rheoliadau ar gyfer cofrestrau tai cyffredin yng Nghymru ac mewn cysylltiad â hwy.

203. Mae adran 160D(2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n galluogi person sydd â chofnod mewn cofrestr i gyrchu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cofnod hwnnw ac â dyrannu tai o dan Ran 6 o Ddeddf 1996. Mae paragraff (b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am gofrestrau tai cyffredin a'u gweithrediad wrth ddyrannu tai yn ardal pob awdurdod tai lleol yng Nghymru.

204. Mae adran 160D(3) yn nodi enghreifftiau o ddarpariaethau eraill y caiff y rheoliadau eu gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth ynghylch diwygio a dileu cofnodion mewn cofrestr, darpariaeth ynghylch rhoi hysbysiadau mewn cysylltiad â chofnodion ar y gofrestr, a darpariaeth ynghylch yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn cofrestr, neu y mae rhaid ei chynnwys mewn cofrestr. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth a gynhwysir mewn cofrestr, neu'n awdurdodi datgelu gwybodaeth o'r fath, i berson penodedig, darpariaeth ynghylch creu, casglu, coladu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gofrestr neu ei gweithrediad wrth ddyrannu tai, a chânt roi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru neu i Weinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

205. Mae adran 160E(1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol yng Nghymru i sefydlu a chynnal cofrestr tai hygyrch y mae rhaid iddi gynnwys yr holl lety tai yn eu hardal sydd ar gael, neu a all fod ar gael yn y dyfodol, ar gyfer eu dyrannu o dan Ran 6 o Ddeddf 1996, a chanddynt nodweddion a allai gynorthwyo person anabl. Gall enghreifftiau o nodweddion o'r fath gynnwys mynedfeydd gwastad, lifftiau hygyrch i gadeiriau olwyn, rampiau â graddiant isel ac ystafelloedd gwlyb â mynediad gwastad.

206. Mae adran 160E(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, mewn rheoliadau as gyfer cofrestrau tai hygyrch ac mewn cysylltiad â hwy.

207. Mae adran 160E(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am gofrestrau tai hygyrch a'u gweithrediad wrth ddyrannu tai yn ardal pob awdurdod tai lleol yng Nghymru.

208. Mae adran 160E(4) yn darparu enghreifftiau o faterion eraill y caiff rheoliadau wneud darpariaeth mewn perthynas â hwy. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch diwygio a dileu cofnodion mewn cofrestr, darpariaeth ynghylch rhoi hysbysiadau mewn cysylltiad â chofnodion ar y gofrestr, a darpariaeth ynghylch yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn cofrestr, neu y mae rhaid ei chynnwys mewn cofrestr. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth a gynhwysir mewn cofrestr, darpariaeth ynghylch creu, casglu, coladu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gofrestr neu ei gweithrediad wrth ddyrannu tai, a darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru neu i Weinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

209. Mae adran 160E(5) yn gosod dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig sy'n dal llety tai yn ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol a wneir iddynt gan yr awdurdod tai lleol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 160E.

RHAN 3 – AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Adran 38: Canllawiau i awdurdodau tai lleol ar warantau rhent

210. Mae adran 38 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau tai lleol ynghylch trefniadau gwarantu rhent. Cyn rhoi unrhyw ganllawiau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau tai lleol a phersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol. Rhaid cyhoeddi'r canllawiau.

Adran 39: Adolygu gweithrediad ac effaith newidiadau a wneir gan y Ddeddf hon

211. Mae adaran 39 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y newidiadau a wneir gan y Ddeddf i Ddeddf 2014, Deddf 1996 ac i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

212. Mae adran 39(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw awdurdodau cyhoeddus neu leol, unrhyw sefydliadau gwirfoddol, unrhyw bobl sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Nghymru, neu unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol wrth gynnal yr adolygiad.

213. Mae adran 39(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith adran 94A o Ddeddf 2014 (dyletswydd person penodedig i ofyn a gweithredu). Rhaid gosod copi o'r adroddiad hwnnw gerbron Senedd Cymru o fewn dwy flynedd i'r diwrnod y daw'r ddyletswydd 'gofyn a gweithredu' i rym yn llawn.

214. Mae adran 39(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad o'u hadolygiad o weithrediad ac effaith y newidiadau eraill a wneir gan y Ddeddf hon a gosod yr adroddiad hwnnw gerbron Senedd Cymru o fewn pedair blynedd i'r diwrnod y daw'r Ddeddf hon yn ei chyfanrwydd i rym yn llawn.

215. Mae adran 39(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu gweithrediad ac effaith newid a wneir gan y Ddeddf ar adeg pan fônt yn ystyried bod y ddarpariaeth sy'n gwneud y newid mewn grym i raddau sylweddol.

Adran 40: Dehongli

216. Mae'r adran hon yn diffinio cyfeiriadau at Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Tai 1996 at ddibenion y Ddeddf.

Adran 41: Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol

217. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r Deddfau a ganlyn:
    - Deddf Tai 1996;
    - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
    - Deddf Tai (Cymru) 2014;
    - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Adran 42: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

218. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau deilliadol, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn cysylltiad â darpariaethau'r Ddeddf.

219. Caiff y rheoliadau hynny ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf). Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd os ydynt yn diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu deddfwriaeth sylfaenol (darpariaeth mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu mewn Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru); fel arall, maent yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

Adran 43: Dod i rym

220. Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd y Ddeddf yn dod i rym. Daw adrannau 38, 39, 40, 42, 43, 44 a 45 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol. Bydd y darpariaethau eraill yn dod i rym ar ddiwrnod (neu ar ddiwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. Caiff gorchymyn o'r fath wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth i rym a chaiff bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.

221. Mae adran 43(4) yn darparu na chaniateir cychwyn adran 35 (darpariaeth ynghylch manipiwleiddio bwriadol) yn gynharach nag adran 10, sy'n dileu'r prawf digartrefedd bwriadol.

Adran 44: Adroddiadau cynnydd ar ddwyn y Ddeddf i rym

222. Mae adran 44 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar gynnydd tuag at gychwyn y Ddeddf yn llawn, a'i osod gerbron y Senedd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr 2028, 31 Rhagfyr 2029, a bob dwy flynedd wedi hynny, os nad yw'r Ddeddf wedi ei chychwyn yn llawn ar y dyddiadau hynny.

223. Rhaid i'r adroddiad nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud a chamau pellach sydd i'w cymryd gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw berson arall i ddwyn y Ddeddf i rym yn llawn.

Adran 45: Enw byr

224. Mae adran 45 yn nodi enw byr y Ddeddf, y caniateir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

YR ATODLEN
MÂN DDARPARIAETHAU A DARPARIAETHAU CANLYNIADOL

225. Mae'r Atodlen yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1996, Deddf 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

226. Mae paragraff 1 yn gwneud diwygiadau i Ran 6 o Ddeddf 1996 (dyrannu llety tai). Mae paragraff 1(2) i (5) yn diwygio adrannau 160, 160A, 167 a 169 o Ddeddf 1996 er mwyn egluro, o ganlyniad i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fod swyddogaethau a phwerau penodol a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol bellach yn swyddogaethau i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

227. Mae paragraff 1(6) yn diwygio adran 172 o Ddeddf 1996 er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod pwerau penodol i wneud rheoliadau yn y Ddeddf honno yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a bod rhaid gwneud y rheoliadau hynny drwy offeryn statudol.

228. Mae paragraff 1(6) hefyd yn mewnosod is-adrannau (2A) a (3A) yn adran 172 o Ddeddf 1996, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch pa un o weithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i reoliadau a wneir o dan Ran 6 o'r Ddeddf honno. Mae'r is-adran (2A) a fewnosodir yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan adran 160B(3) (amgylchiadau pryd nad yw'r ddyletswydd yn adran 160B(2) o Ddeddf 1996 yn gymwys), adran 160D(1) (cofrestr tai cyffredin), adran 160E(2) (cofrestr tai hygyrch) ac adran 167(3) (rheoliadau sy'n diwygio darpariaethau ynghylch blaenoriaethau wrth ddyrannu llety tai yng Nghymru) o Ddeddf 1996 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Mae'r is-adran (3A) a fewnosodir yn darparu bod unrhyw reoliadau eraill a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 6 o Ddeddf 1996 yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

229. Mae paragraff 2 yn diwygio'r tabl yn Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cynnwys rhestr o ddeddfiadau y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi eu nodi ynddynt. Gwneir y diwygiadau er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod adrannau 94A a 94B wedi eu mewnosod yn Neddf 2014 gan adran 20 o'r Ddeddf, i'r graddau y mae'r ddyletswydd yn adran 94A wedi ei gosod ar awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol, ac er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau i adran 95 o Ddeddf 2014, i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

230. Mae paragraff 3 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2014, yn bennaf o ganlyniad i ddiddymu adrannau 70, 73, 77 a 78 o'r Ddeddf honno, ond hefyd o ganlyniad i ddiwygiadau eraill a wneir i'r Ddeddf.

231. Mae paragraff 4 yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 er mwyn diddymu'r cyfeiriad at adran 73 o Ddeddf 2014. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod adran 73 o Ddeddf 2014 wedi ei diddymu gan y Ddeddf.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

232. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd yn:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=45883

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwynwyd	19 Mai 2025
Cyfnod 1 – Dadl	4 Tachwedd 2025
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	11 Rhagfyr 2025
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	3 Chwefror 2026
Cyfnod 4 – Cymeradwywyd gan y Senedd	10 Chwefror 2026
Y Cydsyniad Brenhinol	1 Ebrill 2026